OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 710 (Cy. 157)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022

Gwnaed	*27 Mehefin 2022*
Yn dod i rym	*2 Gorffennaf 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4076, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd digwyddiad Carnifal Aberdaugleddau sy'n cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4076 (Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road, Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Gorffennaf 2022.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys;

(**1**) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 27), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos; neu;

(iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan swyddog awdurdodedig i gefnogi digwyddiad Carnifal Aberdaugleddau ac am resymau diogelwch mewn cysylltiad â'r digwyddiad.

ystyr "y cyfnod cau" ("*closure period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 12:30 o'r gloch ar 2 Gorffennaf 2022 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A4076 Hwlffordd i Aberdaugleddau.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd a elwir yn Victoria Road, Hamilton Terrace a Great North Road sy'n ymestyn i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain o gyffordd Victoria Road â St Anne's Road hyd at gyffordd Great North Road â Charles Street.

Cymhwyso

4. Ni fydd y gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 1 diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Mehefin 2022

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru